**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Llun, 3 Gorffennaf 2023**

**Presennol:** Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ceris Jones (Is-gadeirydd), Amanda Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Ann Bowen Morgan, Mark Strong a Carl Worrall.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Euros Davies, Rhodri Evans a Gareth Lloyd.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorwyr Matthew Vaux ac Alun Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Porth Cynnal; Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Pobl a Threfniadaeth; Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Cyllid a Chaffael; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Gwasanaethau Democrataidd; Heather West, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Tymor Byr wedi'u Targedu; Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Tai; Cerys Purches-Phillips, Uwch Swyddog Tai; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 12.26pm)

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau**

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Carl Worrall y byddai'n gadael y cyfarfod yn gynnar.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd John Roberts am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.
iii. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Elaine Evans a Sian Maehrlein am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
iv. Ymddiheurodd Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Porth Gofal a Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro- Porth Cymorth Cynnar am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Datganodd Audrey Somerton-Edwards fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 3, yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol.

**3 Heriau recriwtio yn y Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod y Cabinet dros Gydol Oes a Llesiant) ddiweddariad i'r Pwyllgor ar recriwtio a chadw staff Gofal Cymdeithasol. Roedd dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu

gwasanaethau statudol diogel i'r rheiny â'r angen mwyaf yng nghymunedau Ceredigion. Er mai Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor oedd yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros hyn yn y pen draw, roedd y cyfrifoldeb ar y sefydliad i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Statudol i sicrhau bod y cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac mewn modd oedd yn arwain at wasanaeth diogel.

Ar y gwaethaf, byddai'r perygl o beidio â chael gwasanaeth diogel yn peri risg i fywyd defnyddwyr y gwasanaeth, a byddai'n peri risg ariannol sylweddol ac yn dreth ar gapasiti staff pe bai'r Cyngor yn destun mesurau arbennig. Er bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio yn ein strwythurau gofal cymdeithasol, pan fo recriwtio'n anodd, roedd cost gwneud hynny'n gyfystyr â gwerth am arian o ystyried y rhan hollbwysig roeddent yn ei chwarae i gynnal gwasanaeth diogel. Roedd staff asiantaeth yn cael eu dewis yn ofalus a'u rheoli'n dda i sicrhau bod anghenion y Cyngor ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu bodloni. Roedd yr her recriwtio ym maes gofal cymdeithasol yn un genedlaethol ac yn un oedd yn debygol o barhau oni bai fod Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio'n fanwl ar y materion hyn.

Bu i Arolygiaeth Gofal Cymru arolygu gwasanaethau'r awdurdod lleol i blant ac i oedolion ym mis Mawrth 2023. Ar ôl arolygiad trylwyr, bu i'r arolygwyr ddarparu adroddiad eithriadol o gadarnhaol a oedd yn darparu llawer o enghreifftiau o'r gwaith da helaeth oedd yn digwydd bob dydd ac yn cyfeirio at yr arweinyddiaeth gref a geir ar lefel uwch. Bu iddynt hefyd gydnabod y meysydd i'w gwella a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol iddynt, a bu iddynt gadarnhau nad oedd unrhyw feysydd lle nad oedd cydymffurfiaeth.

Recriwtio a chadw gweithlu o'r maint priodol oedd un o'r heriau mwyaf sylweddol roedd llywodraeth leol, a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, yn ei hwynebu, gyda chyfraddau'r swyddi gwag yn cynyddu ym mhob maes. Yn ogystal ag egluro'r heriau mewn manylder, roedd yr adroddiad yn cofnodi'r ffordd roedd y Cyngor yn defnyddio dulliau arloesol a chreadigol i geisio ymateb i'r heriau hynny. Roedd y gallu i ddenu ac i gadw talent yn hollbwysig i gynnal gweithlu medrus oedd yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd i gymunedau'r awdurdod lleol. Roedd y Cyngor yn cyflogi gweithlu o oddeutu 3,700 o weithwyr mewn gweithlu cyfwerth ag amser llawn o oddeutu 2,600 o weithwyr, a hwnnw'n weithlu benywaidd i raddau helaeth gyda thua 66% yn fenywod.

Roedd yr awdurdod lleol wedi wynebu her gynyddol o ran recriwtio a chadw staff yn ei gwasanaethau gofal cymdeithasol Llesiant Gydol Oes, yn enwedig dros y deunaw mis diwethaf, ar ôl cyfnod COVID. Roedd y gwasanaethau hyn yn cyflogi gweithlu o oddeutu 700 o weithwyr mewn gweithlu cyfwerth ag amser llawn o 500, ac roedd canran uwch na'r cyfartaledd corfforaethol o'r gweithlu yn fenywod, sef 74%. O blith y swyddi hyn, roedd 240 yn cefnogi gwasanaethau statudol ac roedd 45 (19%) o swyddi gwag yn y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd, gyda 21 ohonynt yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth. O blith y 460 o swyddi oedd yn weddill, ceir 88 (19%) o swyddi gwag, ond dim ond naw o'r swyddi hyn oedd yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth, a hynny yn y cartrefi preswyl a'r Tîm Galluogi.

Roedd staff asiantaeth oedd yn llenwi swyddi yn y gwasanaethau statudol yn cynnwys yr wyth aelod o’r tîm a reolwyd drwy drefniant ag Innovate Services. Fe’u penodwyd yn sgil ymarfer caffael, a dyfarnwyd y contract am gyfnod cychwynnol o chwe mis, gyda’r opsiwn i estyn y contract am hyd at chwe mis mewn blociau tri mis. Er nad oedd y tîm wedi’i gynnwys o fewn cwmpas ariannol yr adroddiad, roedd gwerth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt i’r sefydliad, a’i rôl yn helpu i gynnal gwasanaeth diogel yn amlwg.

Rhoddwyd trosolwg o’r canlynol, fel y nodwyd yn yr adroddiad:

- Ystyriaethau ariannol
- Problemau recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol
- Cyflogau llywodraeth leol
- Trosolwg ar y darlun rhanbarthol
- Y sefyllfa ar hyn o bryd yng Ngheredigion
- Mentrau recriwtio a chadw
- Defnyddio asiantaethau recriwtio i recriwtio i swyddi parhaol
- Allgymorth
- Ymgyrchoedd recriwtio cyfredol
- Casgliad

Roedd yr awdurdod lleol yn gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Tynnwyd sylw at y ffaith fod cyflogau'n amrywio yn yr awdurdodau lleol a’u bod nid yn unig yn cystadlu am staff ond am staff asiantaeth hefyd. Roedd ymdrechion i gyfyngu ar ffïoedd staff asiantaeth, fodd bynnag, gallai hyn arwain at ddiffyg staff asiantaeth yng Nghymru. Roedd y sector Gofal Cymdeithasol o dan bwysau, yn debyg i'r Gwasanaeth Iechyd, a byddai gwelliant ym maes Gofal Cymdeithasol yn cael dylanwad ar y Gwasanaeth Iechyd.

Rhoddodd Audrey Somerton-Edwards gyflwyniad yn dadansoddi’r tueddiadau canlynol fel yr oeddent ar 27.10.2022 a 18.05.2023:

- Achosion ar agor – Statws Atgyfeirio
- Achosion ar agor yn ôl Statws RAG Amber a Choch
- Nifer y Plant sy’n Derbyn Gofal a % yr ymwelwyd â nhw yn y 12 wythnos diwethaf
- Nifer yr adolygiadau ymarfer plant a % yr ymwelwyd â nhw yn y 10 diwrnod diwethaf

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion yn bresennol a’r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- O bwyso a mesur yr opsiynau, datblygu rhaglen gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol oedd y ffordd fwyaf priodol yn hytrach na chwrs israddedig, oherwydd dyna lle’r oedd pawb yn teimlo y gellid recriwtio'n effeithiol. Dechrau arni oedd y gwaith gan Brifysgol Aberystwyth a'r awdurdod lleol, gyda goruchwyliaeth oddi wrth Ofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu'r cwrs, ond y nod oedd efelychu llwyddiant y cwrs nyrsio a oedd ar gael ym Mhrifysgol Aberystwyth.
- Gwnaeth yr awdurdod lleol drefnu lleoliadau ar gyfer hyfforddeion sy'n astudio'r radd tair blynedd Gwaith Cymdeithasol drwy'r Brifysgol

Agored. Roedd yn ofynnol i hyfforddeion weithio i'r awdurdod lleol am o leiaf dwy flynedd ar ôl dod yn gymwys.

- Eglurwyd nad oedd y gwasanaeth yn anniogel ar unrhyw adeg yn ystod yr heriau diweddar. Cyn gynted ag y nodwyd problemau, rhoddwyd argymhelliad cryf gan Gyfarwyddwr Statudol blaenorol y Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn ddiogel. Heb gefnogaeth y Tîm Arloesi, byddai'r llwyth achos wedi mynd y tu hwnt i reolaeth i staff a oedd wedi bod yn deyrngar ac wedi ymroi i'r awdurdod.
- Ar hyn o bryd, nid oedd tystiolaeth i awgrymu bod y gweithio hybrid a oedd wedi'i dreialu dros y deuddeg mis diwethaf wedi cael effaith ar lesiant staff. Roedd aelodau staff Brysbennu/*Triage* yn gweithio yn y swyddfa bob dydd, ac roedd staff Gofal Cymdeithasol wedi defnyddio'r cyfleoedd i weithio mewn modd hybrid. Cydnabuwyd bod amgylchedd cefnogol, goruchwyliaeth a mynediad at wasanaethau llesiant yn bwysig i iechyd a lles y staff.
- Roedd heriau wrth recriwtio staff oherwydd cystadleuaeth gan eraill, megis awdurdodau lleol eraill yn cynnig cyflogau uwch, ond yn gyffredinol nid oedd Cyngor Sir Ceredigion yn ei chael hi'n anodd cadw staff. Roedd swyddi gwag yn bodoli fel arfer oherwydd bod rhai wedi symud ymlaen yn eu gyrfa neu wedi ymddeol. Roedd yn hanfodol codi'r angen ar bob cyfle gyda Llywodraeth Cymru am raddfa gyflog genedlaethol ledled Cymru ar gyfer y sector Gofal Cymdeithasol ynghyd â thynnu sylw at y farn y dylai hyn gael ei ariannu yn llawn gan Lywodraeth Cymru, o ystyried y pwysau ariannol ar awdurdodau lleol.
- Ar hyn o bryd, roedd 38 o Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth yn gweithio ar draws yr awdurdod lleol (roedd 8 o Weithwyr Cymdeithasol a 2 Uwch Ymarferydd yng Ngofal wedi'i Gynllunio). Roedd y rhan fwyaf o'r Gweithwyr Cymdeithasol a ddaeth yn gymwys yn ddiweddar wedi dewis gweithio gydag oedolion, tra bod y rhan fwyaf o'r staff asiantaeth yn gweithio gyda phlant o achos nifer y swyddi gwag. Y gobaith yw y bydd y radd MSc arfaethedig yn arwain at recriwtio yn lleol gan gryfhau'r gwasanaethau.
- Er mwyn recriwtio pobl i weithio i'r awdurdod lleol yn y sector Gofal Cymdeithasol, teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig hyrwyddo gwaith cymdeithasol yn gadarnhaol ynghyd â'r cyfleoedd sydd ar gael ledled y sir. Mae clipiau fideo gan weithwyr yn trafod ac yn hyrwyddo eu rolau, a'r ardal, wedi cael eu defnyddio mewn ymgyrchoedd recriwtio yn ddiweddar. Wrth i dechnoleg a chyfathrebu ddatblygu, mae hi'n bwysig ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael.
- Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch sgiliau ieithyddol staff asiantaeth, eglurwyd bod rhai o'r gweithwyr asiantaeth yn siarad Cymraeg. Teimlai'r aelodau y gallai fod mwy o gydweithio gyda sefydliadau academaidd megis Prifysgol Bangor i ddatblygu hyfforddiant a lleoliadau gwaith, gan roi sylw arbennig i hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol dwyieithog.
- Byddai angen defnyddio rhywfaint o staff asiantaeth bob amser yn yr awdurdod lleol, ond cael cydbwysedd sy'n allweddol. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, roedd gweithio ar gynllunio olyniaeth yn bwysig,

nid yn unig oherwydd y swyddi gwag ond oherwydd bod rhai’n ymddeol. Bydd yr Aelodau'n cael y diweddaraf am hyn maes o law.

O ystyried yr heriau recriwtio ar draws yr awdurdod lleol yn gyffredinol, cytunodd y Cynghorydd Rhodri Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, i gynnwys yr eitem hon ar flaenraglen waith y Pwyllgor er mwyn ei hystyried. Yn ogystal, o ystyried ei rôl ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, roedd e’n barod i godi materion recriwtio yn ôl yr angen.

Yn dilyn cwestiynau, ystyriodd Aelodau’r Pwyllgor yr argymhellion canlynol:
1. Nodi’r sefyllfa bresennol o ran y defnydd pwysig o weithwyr asiantaeth yn ein gwasanaethau gofal cymdeithasol.
2. Nodi’r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud i ymateb i’r her o recriwtio gweithwyr yn y sector hwn.
3. Rhoi adborth ac awgrymu unrhyw atebion posibl eraill i ddatrys yr her recriwtio.
4. Cymeradwyo bod swyddogion yn cydweithio â phartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i bwyso a mesur cyfleoedd creadigol ac arloesol i ddarparu atebion mwy hirdymor.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell i’r Cabinet:
1. Bod Aelodau'r Pwyllgor yn nodi argymhelliad 1 a 2 uchod;
2. Bod y Pwyllgor yn cefnogi’r trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer graddfa gyflog genedlaethol ar gyfer staff Gofal Cymdeithasol, wedi'i hariannu'n llawn; a hefyd
3. Bod yr awdurdod yn cefnogi mwy o gydweithio gyda sefydliadau academaidd megis Prifysgol Bangor i ddatblygu hyfforddiant a lleoliadau gwaith, gan roi sylw arbennig i hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol dwyieithog.

**4 Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol**

Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiad ar gynnydd y Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol. Taliad Uniongyrchol oedd arian a roddwyd gan Awdurdod Lleol i Ddefnyddwyr Gwasanaeth er mwyn iddynt fedru trefnu eu pecyn gofal eu hunain. Roedd Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cynnig i unrhyw un oedd wedi cael ei asesu i fod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymunedol. Ar ôl cael eu hasesu, rhaid cynnig y dewis o daliad uniongyrchol i unigolyn. Roedd y swm a roddwyd yn dibynnu ar faint o gymorth oedd ei angen, a pha fath, ac roedd hyn i gyd yn cael ei gynnwys yn y cynllun gofal oedd yn cael ei lunio gan yr aseswr. Roedd rhai yn dewis defnyddio asiantaeth ofal yn lle hynny. Roedd yn rhaid i awdurdodau lleol roi cymorth a chefnogaeth i bobl iddynt reoli eu Taliad Uniongyrchol a’u cyfrifoldebau cyflogaeth. Rôl y Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol oedd hyn.

Roedd Archwilio Cymru wedi disgrifio nodweddion meincnodi awdurdodau lleol oedd yn effeithiol wrth annog, rheoli a chefnogi pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Rhoddwyd trosolwg o’r sefyllfa bresennol, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a'r diweddariad ar ddatblygiadau o fewn y Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol.

**5 Adroddiad ar y Gofrestr Tai**

Esboniodd y Cynghorydd Matthew Vaux (Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu, a Diogelu'r Cyhoedd) mai diben yr adroddiad oedd rhoi gwybodaeth am broses ymgeisio a bandio'r Gofrestr Tai, a'r cysylltiadau a'r buddion oedd ynghlwm. Dywedwyd bod y wybodaeth a gasglir yn helpu'r gwasanaeth i nodi tueddiadau a fydd yn cael eu hystyried yn y Polisi a'r Strategaeth Tai.

Rhoddodd Llyr Hughes gyflwyniad i'r Pwyllgor gan amlinellu'r canlynol:

- Pwrpas y Gofrestr/ Galwadau ar y Gwasanaeth
- Partneriaid
- Proses Ymgeisio a Pholisïau/Cofrestrau
- Polisi Dyrannu Cyffredin a Bandio
- Ceisiadau- 01/04/2022 hyd 31/03/2023
- Dadansoddiad o'r Bandio presennol
- Rhesymau dros symud
- Dyraniadau - 01/04/2022 hyd 31/03/2023
- Manylion Cyswllt

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Llyr Hughes, Cerys Purches-Phillips a'r Cynghorydd Matthew Vaux. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Mewn ymateb i ymholiadau am yr angen i adnewyddu ceisiadau tai yn flynyddol, nodwyd bod hyn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn gywir a bod dal angen am dŷ. Roedd mecanwaith cadarn ar waith i sicrhau fod pob ymdrech yn cael ei wneud i gysylltu ag ymgeiswyr pan oedd angen iddynt adnewyddu, ac roedd yn allweddol bod y manylion yn gywir rhag ofn fod cynnig am lety yn cyrraedd.
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli tenantiaeth, yn hytrach na'r awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am y cyfnod cyn tenantiaeth. Anogwyd aelodau i gysylltu â'r gymdeithas dai berthnasol os oedd problemau i'w riportio.
- Amlygwyd mor bwysig oedd peidio â chael rhagdybiaethau ynglŷn â dyrannu tai cymdeithasol. Roedd polisi a phroses i'w dilyn gan gynnwys bodloni'r meini prawf ar gysylltiadau lleol i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu bandio'n briodol.
- Nid oedd yna dystiolaeth i awgrymu bod mwy o ddigartrefedd wedi i Rhentu Doeth Cymru gael ei gyflwyno, ond awgrymai gwybodaeth anecdotaidd fod landlordiaid yn gadael y farchnad.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

**6 I gonsidro'r Rhaglen Waith 2023/24**

Cytunwyd i nodi cynnwys y Flaen Raglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

- Gwahodd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol (Barcud, Cymdeithas Tai Wales & West, a Caredig) i annerch y Pwyllgor (Mawrth 2024)
- Cael diweddariad ar wasanaethau iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**7 Cofnodion o'r Pwyllgor diweddara ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2023.

Materion sy'n codi: Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023**

**Cadeirydd:_________________**

**Dyddiad:___________________**